YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1886. [RHIF 63.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DYLEDSWYDDAU MOESOL YR IEUAINC (II.).

GAN Y DIWEDDAR BARCH. W. THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES).

LLITH IV.

PAN yn eich anerch y tro diweddaf, ceisiais wasgu arnoch y dyledswyddau moesol o *barchu eich rhieni, dweyd y gwir, gwneyd y gwir.* Mae yn fy mryd heddyw i nodi rhyw ychydig o bethau yn mhellach.

4. Meithrinwch *ysbryd ac arferion o garedigrwydd.* Nid oes dim yn gweddu i fab neu ferch ieuanc yn well nâ thymher addfwyn, serchog, llawn o ewyllys da. Mae yn gweddu i'r oedran, ac i'r amgylchiadau; mae yn parotoi dyn ar gyfer bywyd defnyddiol a dedwydd. Os bydd yn anngharedig pan yn ieuanc, cwyd y gofyniad, "Pa beth fydd erbyn y cwrddo â threialon ac â siomedigaethau bywyd?" Bydd yn annhirion at bawb, a cheisia pawb ochelyd oddiar ei ffordd. Mae Duw wedi ein gosod mewn teuluoedd, lle y gall ysbryd caredig gael ei feithrin megys mewn gardd gysgodol; rhoddir hamdden i'r planigyn tyner i dyfu yma cyn cael ei drawsblanu i wynebu ystormydd y byd. Deddf caredigrwydd ddylai gael llywodraethu yn mhob teulu, a phob aelod i gydnabod ei hawdurdod dyner o'i flynyddoedd boreuaf. Lle mae y fath ymddybyniad y naill ar y llall, a'r fath berthynas agos, nid anhawdd yw trefnu y bywyd, yn ei wahanol swyddau a'i alwadau, i gyfarfod gofynion y ddeddf hon. Prin y dylid ei galw yn ddeddf, gan y cyssylltir â'r gair "deddf" y meddwl o rywbeth llym a chaled, er na ddylid, oblegyd y mae deddfau Duw yn ddeddfau o gariad ac o dynerwch yn ol y graddau yr adnabyddom ni hwynt. Etto, deddf ydyw, ac fel pob deddf arall, mae cyssur a dedwyddwch a llwyddiant o'i chadw; a deddf hollalluog yn y pethau a effeithia ydyw. Nid oes dim yn dylanwadu cymmaint ar ddyn â charedigrwydd. Ambell un yn brin gymmer ei "yru," ond pob un ei ddenu, ei dynu â rheffynau cariad,

a'i wresogi gan ofal arall drosto a thiriondeb arall ato. Byddai yn hawdd i mi nodi enghreifftiau i ddangos effeithiau hyfryd caredigrwydd, ond diau genyf y gwyddoch chwi eich hunain am ddigon o enghreifftiau ond i chwi eu dwyn i gof. Gwyddoch fel y mae caredigrwydd brodyr a chwiorydd, tad a mam, yn effeithio arnoch, ac oddiwrth hyn, y mae yn hawdd i chwi gasglu pa ryw ddylanwad da a ddyg eich caredigrwydd chwi pan yn cael ei arfer tuag atynt hwy. Y gwahaniaeth dirfawr o fyned i deulu lle mae pob un yn ofalus o deimladau y llall, yn ochelgar rhag dweyd a rhag gwneyd dim a roddai dramgwydd neu boen, yn awyddus i felusu pob chwerwder ac ysgafnhau pob baich, i ddangos pob peth yn y lliw goreu ac nid yn y lliw gwaethaf, ac i gydymdeimlo lle byddo calon glwyfedig a *ll* esg yn griddfan o dan ei baich —o fyned i'r fath deulu a myned i deulu arall, lle byddo yspryd sych a sarug yn teyrnasu rhwng yr aelodau, heb braidd i air serchog na golwg serchog yn cael eu cyfnewid yn hyd y dydd—rhyw surni, rhyw groesder, rhyw wenwyn grwgnachlyd, yn rhedeg drwy y cwbl ac yn anafu pob mwynhad. Pob un, yn lle ceisio helpu'r llall, yn hytrach am daflu rhwystr ar ei ffordd, neu, o leiaf, yn ddiystyr o'r cymhorth sydd ar ei law i'w estyn. Meithrinwch yspryd caredig, yna fe ganlyn golwg serchog, ymddygiad tirion, iaith dyner, ymdrech frawdol at gynnorthwyo eich gilydd. Rhoddwch attalfa ar bob meddwl anngharedig—na chaffed lettya yn eich mynwes. Trefnwch eich calon i angel caredigrwydd, ac nid i sarff digofaint ac annghariad, drigo ynddi. Lle byddo gwendid neu ddiffyg, na wnewch wawd o hono—na leferwch yn ysgafn am dano; dangoswch fod yn ddrwg, ac nid yn dda, genych am hyn. Lle byddo cam wedi ei roddi o'r ffordd, ceisiwch adgyweirio y cyfryw un mewn yspryd addfwynder, gan ystyried eich hunain. Mae y caredicaf o feibion dynion yn esiampl i ni, yn ceryddu pob tymher anfwyn, ddiserch, a dideimlad—esiampl yr hwn a aeth oddiamgylch gan wneuthur daioni, ac a ddangosodd gydymdeimlad dwfn â thlodi ac afiechyd, a phob math o ddynol wendid, heb gau allan amgylchiadau y rhai oeddynt wedi suddo i drueni mawr oblegyd eu hanffyddlondeb i'r gwirionedd a wyddent i'r ymddygiad a gymmeradwyai ei hun i'w cydwybodau. Llawn tosturi a charedigrwydd oedd ef at y rhai hyn: "Corsen ysig nis tyr; llin yn mygu nis diffydd."

5. Dywedaf etto, *gochelwch genfigen*. Nac ymddigiwch oblegyd llwyddiant arall. Llawenhewch yn hytrach. Mae'r byd yn ddigon llydan i chwi ac iddynt hwythau—ie, y Duw a'ch gwnaeth chwi a wnaeth eich brodyr a'ch chwiorydd o ddynolryw hefyd. Os llwydda ereill, dysgwch paham—ond oblegyd eu diwydrwydd, eu ffyddlondeb, a'u doethineb. Yn hytrach nâ chenfigenu, dysgwch wers oddiwrthynt, ac ewch chwithau, a gwnewch yr un modd. Pan mewn trallod ein hunain, ni ddylem lawenhau nad yw ein cyfeillion wedi eu darostwng i'r un adfyd; pan mewn hawddfyd, a allwn ni ddim ffordd'io calonogi a chyssuro rhyw frawd neu chwaer o dan ei phwn, yn ocheneidio ac yn cwynfan? Mae hawddfyd pob un o honom, mewn gwirionedd, yn achos o lawenydd i'r llall; mae llwyddiant pob un yn ychwanegu at y swm o ddedwyddwch yn y byd—yn hatling i chwyddo'r drysorfa fawr i fyny. Ni

ddylai fod maes ein cymmydog yn cnydio yn dda fod yn ddraen yn ein hystlys ni, ond dylem fod yn foddlawn, os nid yn llawen, serch na ffrwythodd ein hyd ni megys yn y blynyddoedd o'r blaen. Anwyl gyfeillion, os cewch un yn eich plith yn gwybod mwy, yn fwy eang ei alluoedd, ac yn fwy lluosog ei gyfleusderau, na chenfigenwch wrtho; llawenhewch yn hytrach, ac ymestynwch at gyrhaedd gwybodaeth, at amlhau eich rhinweddau, ac at ddyfnhau eich duwioldeb yn yr amgylchiadau y gosododd Rhagluniaeth chwi ynddynt. Ar bwys ein gilydd yr ydym yn byw; nid yw yr haul yn llewyrchu ar neb bob amser; mae yr un cariad dibartiaeth yn darparu y pethau goreu ar ein cyfer oll; am hyny, bwriwch genfigen yn mhell oddiwrthych, a meddianned boddlonrwydd, ymostyngiad, ac ymddiried yn Nuw chwi. Ni chewch y cwbl yn y ffordd a gynlluniwch chwi, a da hyny; mae cariad perffeithiach nâ'r un cariad dynol wedi bod yn gosod y deddfau i lawr; mae ei ddogn wedi ei fesur i bob un gan Awdwr a Gweinyddwr y deddfau hyn. Dylem fendithio nad ein ffyrdd ni a'n hamcanion ni yn fynych sy'n llwyddo—nad yw anmherffeithrwydd dyn yn myned yn drech nâ pherffeithrwydd Duw. Mae cenfigen yn fath o ddarfodedigaeth foesol, yn bwyta o dan wreiddiau gwir fywyd dynol, yn ysu'r gynnaliaeth ddylai'r galon gael, yn troi yr hyn ddylai fod yn gynnaliaeth yn wenwyn, yn peru bywyd truan, newynllyd, digyssur, dinefoedd. Na fynwch fod fel y melinydd a garai gael y dwfr i gyd i droi ei rod ef, ond diolchwch fod cymmydogion a chyfeillion yn byw yn y byd o'ch cylch, a bod eu mesur o ddedwyddwch yn deilwng iddynt hwy megys i chwithau. Ac am nad ellwch chwi ryw waith neillduol cystal ag ereill—darllen, canu, cynghori—nac ymddigiwch: dysgwch gan ereill, lloffwch, a gwnewch oreu y galloch. Os mai dwy dalent gawsoch, na chenfigenwch wrth yr un a gafodd bump—na wadwch ei deilyngdod—na cheisiwch ei dynu i lawr i'ch lefel chwi—ceisiwch chwi yn hytrach godi drwy ei annogaeth a'i help ef.

6. Cadwch eich meddyliau *yn bur*. Na wnewch rhyw fwyniant ofer, cnawdol, yn brif bwnc. Na cheisiwch sugno mêl o ryw ddyfyrwch gwâg. Ceisiwch adnabod pa le mae gwir bleser i'w gael. Cadwch eich dychymmyg yn lân, eich bwriadau yn bur, eich calonau yn sanctaidd megys yn ngolwg Duw. Ffrwynwch bob tuedd i feddwl ac iaith fudr, halogedig. Na roddwch eich hunain i fyny i gellwair pechadurus. Mae sirioldeb—mae llawenydd yn dda, ond na ymollyngwch i iaith anweddaidd, isel, gnawdol. "Ie, ni feddyliwn I ddim drwg—dim ond fod fy nhafod yn aflywodraethus." Ond mae gofyn llywodraethu tafod. Meddyliwch am yr argraff a ga lleferydd isel a llygredig ar ereill serch na fwriadwch chwi ddim drwg. Ond ai tybed y llefarai y tafod bethau gwael pe'r meddwl yn lân—yn cael ei gadw yn deml sanctaidd i Dduw? "O helaethrwydd y galon," &c. Serch na fwriadwch chwi ddrwg ar y pryd, nid *yw* pob peth yna fel y dylai fod. Y mae rhyw ysgafnder, ffoledd, gwehilion, yn llechu yna. Chwi wyddoch chwi, ond ystyried, i ba beth y mae iaith anweddaidd, front, anllad, yn arwain, yn gystal ag o ba le y mae yn tarddu. Mae pechod a adwaenwch nad oes eisieu ei grybwyll, ac na allwch fod yn rhy ochelgar rhag-

ddo. Mae yn anurddo ein gwlad, wedi tynu'r gwrid iachus o lawer grudd siriol a welwyd lle eich gwelir chwi yn awr, wedi gwisgo â chywilydd y gwyneb agored, prydferth, wedi llethu â gofid y galon a fu unwaith yn iach a phur, wedi suddo ambell un i ddyfnder o ddiofalwch ac o galon-galedwch na chodwyd yn llwyr o hono hyd heddyw. O! cadwch gorff a meddwl yn demlau cyssegredig i'r Ysbryd Sanctaidd i breswylio ynddynt. Parchwch fawredd ac urddas y natur a roes Duw i chwi. Na ymwerthwch i'r drwg am awr o fwyniant darfodedig. "Pa fodd y gwnaf y mawr ddrwg hwn," &c.

7. Dysgwch fod *yn wrol*—i gadw at yr iawn, nad beth a ddywed y byd. Gwrandewch ar lais Duw o'ch mewn; na cheisiwch ei fogi. Na ddiffoddwch yr ysbryd—byddwch ffyddlawn iddo. Gadewch iddo fod yn golofn o niwl yn y dydd, ac yn golofn o dân yn y nos i chwi. Ni ddaw'r gwroldeb uwchaf, yn ddiau, ond fel cynnyrch blynyddau o brofiad ac ymdrech; ond yn awr yw yr amser i chwi ddechreu ei feithrin a'i gadarnhau. Cewch lawer sen gan rai am na chydunwch â rhyw wagedd sal, am na chydymffurfiwch â dwli y byd o amgylch i chwi. Fechgyn a merched, cofiwch y rhaid ufuddhau i Dduw. Os ceisiwch fod yn bur, yn ddichlynaidd, yn wynebagored, yn ffyddlawn i'r goleuni sydd ynoch, fe fyn rhai wneyd gwawd o honoch. Na fydded gwaeth genych. Os yn ddiniwed, os yn gysson â chwi eich hunain, os yn ffyddlawn i'r goleuni a roddes Duw i chwi, chwi a ddiffoddwch bicellau'r bobl hyn. Na throed gwawd y byd chwi oddiar eich llwybr. Hawdd i chwi droi ar y dynion sy'n chwilio beiau, ac yn traflyncu yn y tywyllwch. Llusgwch hwy i maes o'r tyllau, dynoethwch hwy am funyd—nid o flaen y byd, ond o flaen eu cydwybodau eu hunain, a gofynwch iddynt beth sydd ganddynt hwy yn rhagorach nâ'r hyn a feiant yn ereill—yn mha beth y maent hwy yn esiampl. Dangoswch iddynt fod yn well cyfeiliorni a llithro yn ngwyneb haul a llygad goleuni nâ chyfarth ac enllibo o'r tucefn dan gysgodau tywyllwch, a rhincian dannedd o falais. Nac ymladdwch â'u harfau hwy—enllib a hustung, malais—ond ag arfau'r goleuni, uniondeb, gonestrwydd, cyssondeb, purdeb, ac yna, gedy gwawd y byd chwi yr un man ag o'r blaen. Fechgyn a merched yn berchen ar ddeall a chalon a chydwybod, fel ag ydych, gweithredwch drosoch eich hunain, barnwch drosoch eich hunain—os da yw'r peth a draethaf fi wrthych, derbyniwch ef; os nad e', na foed i chwi ran na chyfran o hono. Ond na foddlonwch ar farn ereill; na syfler chwi gan gondemniad neb ond yr eiddoch eich hunain. Barnwch gyda phethau moesol a chrefyddol fel y gwnelech gyda materion tymhorol. Na chaed gwawd neb eich gwironi, na sen neb eich llwfrhau. Ceisiwch deimlo eich ffordd yn y blaen bob cam o honi—ennillwch dir i chwi eich hunain, tir dyogel, tir a'ch dalio yn ymgyrch fawr bywyd, with ymladd â themtasiynau'r byd. O na allwn eich perswadio i arfogi eich hunain yn awr ar gyfer y brwydrau sydd o'ch blaen—y brwydrau â drwg arferion o oferedd, o anonestrwydd, o ansefydlogrwydd. Pan yr wyf yn enwi'r pethau hyn yn awr, yr ydych yn barod i wingo, a dweyd, "Ni fydd i ni ddim a wnelom â'r pethau hyn." Felly y teimlwch heddyw; ond daw yfory,

a threnydd, a thranoeth, a'r pwnc yw fod i chwi lwyddo i gadw'r min ar eich penderfyniadau, a'r gwlith hyfryd boreuol ar eich cymmeriadau. Ymwisgo y mae Satan fel angel y goleuni. Dyna'r drwg. Mi welais I lawer mor obeithus, mor addawus â chwi heddyw—mor ddigllawn ag oedd modd, pan goffheid eu peryglon iddynt. Ond gan na ddaeth y drwg yn y ffurf a ddysgwylient hwy, ond mewn rhyw ffurf decach, hawddgarach, bu'r demtasiwn yn ormod—fel byddin yn dychwelyd o faes y frwydr, cwympasai llawer, a chlwyfasid ereill yn farwol; neu long, ar ol gadael y porthladd mewn llawn hwyliau, yn rhwygedig a dilun iawn yn dychwelyd. Rhaid wrth wyliadwriaeth, wrth benderfyniad, wrth yni, a dyfalbarhad. I'r rhai sydd yn ymdrechu y rhoddir coron y bywyd. Ac O, gwynfyd y rhai a gadwont eu gwisgoedd yn lân, a barchont y ddynoliaeth a roddodd Duw iddynt, ac a safont eu tir yn nydd y brofedigaeth. Daw angylion Duw i weini ar y rhai hyn. Bydd iddynt gyfran gyda saint y Goruchaf; rhoddir iddynt goron, yr hon ni ddyg neb oddiarnynt. Gwynfydedig ydynt. Gosodasant eu hymddiried yn Nuw, ac ni chywilyddiwyd hwynt.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd y diweddaf o'r uchod yn y Wig, Mercher ac Iau, Medi y 29ain a'r 30ain. Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fercher, gan y Parch. J. Williams, Pantteg. Yna cafwyd pregeth Saesneg gan y Parch. W. J. Davies, Dowlais, yr hwn, gydag egni, a nododd allan ddaioni Duw tuag at ddyn, ac amrywiol ddyledswyddau dyn mewn canlyniad o hyny, gan gyfeirio yn neillduol at y ddyledswydd o ddiolchgarwch, ac wed'yn, y pregethodd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yn nerthol a difrifol ar brydferthwch a dylanwad cymmeriad da (Matt. v. 16). Dechreuwyd y cyfarfod, boreu dydd Iau, gan y Parch. D. Evans, gweinidog newydd Cribin. Yna cafwyd pregeth Saesneg alluog gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, sylfaenedig ar y geiriau, "Mawr amryw ddoethineb Duw" (Eph. iii. 10). Buasai yn dda gan lawer yn y Wig gael clywed Mr. Lloyd yn pregethu yn Gymraeg, ond o herwydd fod mwyafrif ein pobl ieuainc, ac amryw ereill yn y gymmydogaeth yn deall Saesneg yn well nâ Chymraeg, gorfu arnom ei osod ef i lefaru yn Saesneg. Y pregethwr appwyntiedig oedd y Parch. R. J. Jones, Aberdar, yr hwn a roddodd bregeth deimladwy a llawn o amrywiaeth, oddiar y geiriau, "Swm y cwbl a glybuwyd yw, ofna Dduw, a chadw ei orchymynion; canys hyn yw holl ddyled dyn" (Preg. xii. 13). Dywedodd fod i ddyn ei "ddyledswyddau" yn ogystal â'i "iawnderau," fod dyledswydd arno i ofalu am yr oll o'r dyn, y corff, y meddwl, a'r yspryd, a cheisio dadblygu ei hun. Er mwyn esgyn i fyny, rhaid i ddyn osod nod uchel o'i flaen a chyrchu ati hi gydag ymdrech. Nid y cryfaf o ddynolryw o angenrheidrwydd yw yr uwchaf. Nid "trechaf

treisied, gwanaf gwaedded," ddylasai fod y rheol gyda dyn. Y plentyn bach yn y gadair yw y gwanaf o'r teulu, ond etto, efe yw y mwyaf dyogel o'r oll. Ymddadblygiad uwchaf dyn yw ei ymddadblygiad tuag at Dduw a nefoedd. Rhaid iddo ofni Duw, ond nid gydag ofn slafaidd. Rhaid i'r pechadur ofni parhau i bechu, a dychwelyd at Dduw. Rhaid iddo wneyd crefydd yn yspryd byw, ac nid rhywbeth *cheap* neu lythyren farw. Aethpwyd trwy ran ddefosiynol o'r cyfarfod y prydnawn, gan y Parch. J. Evans, Gellionen gynt. Yna cafwyd cynnadledd i drin y pwnc:—"Beth oedd Efengyl neu 'newyddion da' yr Iesu?" Y Parch. W. James, B.A., Llandyssul (yr hwn oedd wedi cael ei benodi i ddarllen papyr arno), a ddywedodd:—"Mae dynion yn yr oes hon yn ansefydlog mewn perthynas i'w golygiadau crefyddol, ac yn awyddu am oleuni ar faterion crefydd. Nid yw credöau mwyach yn alluog i gyfateb i ofynion yr enaid. Nid yw addysgiadau y credöau am Dduw, Iesu, Natur Dyn, Iachawdwriaeth, Nefoeddd, Uffern, &c., mwyach yn cael eu derbyn gan ddynion meddylgar. Mae Agnosticiaeth yn barod i dreio llanw i fyny y gwagle ag y mae yr hen gredöau meirw wedi adael. Dywed Agnosticiaeth nas gallwn wybod dim am Dduw, Enaid Dyn, Bywyd Dyfodol, a'r cyffelyb; felly, nid yw yn boddio hiraeth y galon a greddfau yr enaid. Credai ef mai 'Efengyl yr Iesu' ei hun yn unig a rydd dawelwch. Rhaid myned at yr Iesu ei hun, yn enwedig ato Ef yn y 'bregeth ar y mynydd.' Camsyniad yw meddwl fod 'Efengyl yr Iesu' i'w chael yn mhob rhan o'r Beibl yn ogystal. Mae addysgiadau yr Iesu ei hun yn fwy gwerth nâ dim arall yn yr holl Feibl. Ni ddaeth hyd y nod yr apostolion i fyny i'w safon ef. Cymharer, er enghraifft, deimlad Paul tuag at Alexander, y gôf copr (2 Timotheus iv. 14) â theimlad yr Iesu tuag at hyd y nod y rhai hyny a'u croeshoelient ef (Luc xxiii. 34). Mae y rhan fwyaf o Gristionogion yn barod i addef mai yr Iesu ei hun ddylasai fod yr awdurdod mewn perthynas i'w Efengyl. Amcan diwygwyr fel Luther, Calfin, Wesley, Channing, ac ereill, oedd dwyn yn fwy amlwg Efengyl bur a syml yr Iesu ei hun. A chymmeryd yr Iesu fel awdurdod, daliai mai nid addysgiadau y credoau oedd 'Efengyl yr Iesu.' Ni ddygodd yr Iesu yr athrawiaethau, 'Y Drindod,' 'Natur ddynol hollol lygredig,' 'Poenau tragwyddol,' 'Iawn dirprwyol,' &c. Yn gadarnhaol, 'Efengyl yr Iesu' oedd Efengyl gwybodaeth o Dduw fel Tad a Duw Cariad, fel Tad hyd y nod i'r afradlon, ac fel Duw agos at y byd, agos atom, nid yn unig ar y 'mynydd' neu yn 'Jerusalem,' ond hefyd ar yr aelwyd, yn y gweithdy, yn y farchnad, &c. Yr oedd hi yn Efengyl ymddiried yn y Natur delynol. Appeliai yr Iesu at y mwyaf isel o'i oes i fod yn *berffaith*, fel yr oedd eu Tad, yr hwn oedd yn y nefoedd yn berffaith. Yr oedd hi yn Efengyl neu 'Newyddion da' i bawb—i'r plentyn, i'r fam, i'r gwas. Gwnaeth yr arferiad o ladd babanod ddechreu marw allan o'r byd, pan y cymmerodd yr Iesu blant bychain i'w freichiau a'u bendithio. Unwaith, nid oedd menyw ond caethforwyn i'r dyn, a gwas ond caethwas (*slave*) i'r meistr; ond dysgodd yr Iesu, "Na'ch galwer yn athrawon (meistriaid); canys un yw eich Athraw chwi, sef Crist;" ac fe ddyrchafodd ef swydd gwas pan y daeth, nid

"i'w wasanaethu, ond i wasanaethu" (neu i fod yn was). Yr oedd hi yn Efengyl Gobaith i bawb—gobaith

"Mai rywfodd da
Fydd diwedd pob daearol foes,
Pob poen, a phob ewyllys groes,
Amheuaeth a phob dynol bla:
Mai da a fydd
Ryw ddydd yn mhell—i bawb ryw ddydd,
Y try pob gaua'n wanwyn gwyrdd."

Y Parch. R. J. Jones (yr hwn a siaradodd yn Saesneg) a ddywedodd:—"Dylid cofio mai 'newyddion da' oedd 'Efengyl yr Iesu.' Dysgir llawer o bethau yn enw yr Efengyl nad ydynt yn 'newyddion da' i neb; nid yw yn newyddion da i neb gael clywed y bydd i niferi aneirif o'r hil ddynol gael dyoddef poenau tragwyddol, o herwydd i Adda syrthio. Dywed y paganiaid drosodd a throsodd wrth y cenadwyr Cristionogol nad yw hi ddim yn 'newyddion da' iddynt hwy gael clywed fod perthynasau agos ac anwyl wedi myned i boenau tragwyddol, o herwydd na chlywsant am, a chredu yn 'y prynedigaeth trwy waed y groes;' a mynych y gwnant yn wrol ddewis cymmeryd eu lle gyda'u cyfeillion yn uffern, yn hytrach nâ myned i'r nefoedd dan y fath amgylchiadau. 'Efengyl yr Iesu' oedd y 'newyddion da' o Dadoldeb Duw, Brawdoldeb Dyn, Iachawdwriaeth yn agored i bawb, ac mai da fydd i'r da, ond drwg i'r drwg."

Sylwodd y Parch. W. J. Davies fod "Efengyl yr Iesu" yn Efengyl *llawenydd* bywyd. Cyfeiriodd y Parch. E. W. Lloyd at y gobaith a'r goleuni yn nghylch bywyd dyfodol a geir yn yr Efengyl. Symiwyd i fyny gan y Parch. T. Thomas, yr hwn a siaradodd yn uchel am y gwahanol anerchiadau, yn neillduol am bapyr Mr. James.

Yn yr hwyr, darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. J. H. Davies, Cefn. Pregethodd y Parch. W. James, yn Saesneg, oddiar y testyn: "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth" (Marc xiv. 8). Er fod yr iaith yn Saesneg, gofalodd fod yr *hwyl* yn Gymraeg. Yna cafwyd gan y Parch. T. Thomas bregeth eglur mewn athrawiaeth a difrifol mewn annogaeth, oddiwrth y geiriau, "Gadawed y drygionus ei ffordd," &c. (Esaiah lv. 7.)

Bu y cyfarfodydd yn llwyddiannus a dymunol iawn drwyddynt, a rhoddasant foddlonrwydd hollol i braidd bawb a fuont yn bresenol.

Cynnelir y cyfarfodydd nesaf yn yr Onenfawr, ger Llandilo. Y pregethwr fydd y Parch. T. Thomas.

W. P.

Y mae y Parch. Mr. Voysey yn barnu mai efe yw yr unig bregethwr sydd yn ei wneuthur yn brif orchwyl ei fywyd i ddibrisio cymmeriad Iesu Grist. Mae gyda ni bobl ereill yn Nghymru yn dwyn anair ar enw yr Iesu, ond heb amcanu at hyny. Byddai'n well genym ni weled Voysey yn annog dynion i barchu'r Iesu.

LLUNIAU.

Pan yn meddwl, prydnawn ddoe, pa beth i siarad yn ei gylch wrth y plant, dydd Sul nesaf, ar ol gorphen yr ysgol, gwelais rywbeth a awgrymai i mi bwnc i sylwi a manylu arno. Dyma beth a welais, sef amryw fechgyn yn dyfod allan o un o ystafelloedd goleugraffydd, lle y gellwch gymmeryd eich lluniau yn rhad iawn—dwsin am 7½c., dyna'r pris. Yr oeddynt wedi bod yn tynu eu lluniau, a gwelais pa fodd oedd rhai o honynt yn cymmeryd y sypyn cardiau allan o'u llogellau i gael golwg dda arnynt eu hunain, a pha un a oedd y cyfryw yn debyg ai nad oeddynt. Yr ydym oll, fel y gwyddoch, yn cymmeryd dyddordeb mwy neu lai yn ein lluniau ein hunain. Felly, daeth i fy meddwl, fel y gwelwn y bechgyn yn ddiwyd gyda'u lluniau o faintioli *postage stamp*, y buaswn yn siarad â chwi, heddyw, yn nghylch eistedd i lawr i gymmeryd eich lluniau.

Nid wyf yn pwrpasu dywedyd wrthych pwy yw y goleugraffydd goreu, neu pa fodd y dylech osod eich hunain i edrych, pan yn eistedd i gymmeryd eich llun. Nid yw yr eisteddiad i gymmeryd llun, yn nghych yr hwn wyf yn myned i siarad, ddim yn beth mor anhawdd â hyny mewn un ystyr, a hono yn un bwysig, yn wir. Prin y gwyddom pryd y mae yn cael ei dynu, pa fodd, nac yn mha le; etto, y mae pob un o honom ni, pa un a ydym yn myned at y goleugraffydd neu beidio, yn tynu ein lluniau gwirioneddol, ac mewn modd y mae yn llwyr anmhossibl i neb pwy bynag o'n cyfoedion, a phawb o fewn cylch ein dylanwad, i'w gamsynied. Yn wir, y maent yn llawer mwy anffaeledig nâ'r Pab o Rufain.

A gaf fi ddywedyd wrthych yn mha fodd? Y mae dwy ffordd, yn y rhai y cymmerir ein lluniau. Un o honynt yw yn ein gwynebau ein hunain, yn y mynegiad sydd yn dyfod drostynt, hyd y nod yn ein ffurfiau a'r llinellau sydd yn ein cuddio. Dyma'r lluniau ydynt argraffedig tuallan i ni—o honom ni ein hunain—ein hunain sylweddol. Y meddyliau a feddyliwn, y teimladau a deimlwn, y penderfyniadau ydym yn eu gwneyd.

Ystyriwch, am ychydig amser, ai nid felly y mae yn bod. Dychymmygwn am danom ein hunain yn cerdded yn araf ar hyd yr heol, ac yn edrych ar y bobl fel y maent yn pasio heibio i ni. Os yr edrychwn ac y craffwn yn ofalus, byddwn alluog i ddywedyd am lawer o honynt y fath fywydau y maent wedi eu byw. Y mae gan rai o honynt wynebau ydynt luniau byw a gweladwy, yn wir, o honynt eu hunain gwir, ac o'u bywydau. Gwelwn ddyn neu ddynes yn myned heibio i ni, ac heb ymresymu dim yn nghylch hyny, gwyddom drwy fath o reddf mai gwyneb meddwyn ydym yn ei weled. Y mae arwyddion cyffredin a digamsyniol y mae pawb, braidd, yn eu hadnabod a'u cydnabod. Y mae arferiad drwg wedi ei baentio yn neu ar y llygad coch a'r gwyneb chwyddedig, neu yr aelodau crynedig a nychlyd. Y mae drygioni annghymmedroldeb yn ysgrifenu ei hun ar ffurf mewn modd amlwg iawn—ie, mewn un nad all neb ei gamsynied. Ac y mae ffaeleddau a drygau ereill yn cymmeryd eu lluniau hefyd—lluniau cywir a

digamsyniol. Adnabyddwch ddyn balch, pan ei gwelwch, wrth ei ddull o gario ei hunan fel pe byddai ef o fwy o bwys nâ neb arall o'r byd, neu ddyn gorwag, dyn twyllodrus, dyn drwgdybus, dyhiryn, lleidr, dyn cyfrwys. Onid oes ganddynt oll eu harwyddion gwybyddus wedi eu hysgrifenu ar eu gwynebau mor amlwg â phe buasai yno arwydd fel y gwelwn ar dafarndai, yn cyhoeddi i'r byd—Gwagedd yw y brif nodwedd yma, neu eiddigedd, neu ddrwgdybiaeth?

Ysgrifenwn beth ydym, ac y mae'r ysgrif hono mor blaen ac eglur i'w gweled, fel y gall dynion craffus ein hadnabod ar darawiad llygad, ac yn fuan, gall pob dyn wybod pa beth ydym yn wneyd o'n bywydau. Gall hyd y nod gŵn a chathau, llawer mwy blant, ddarllen llun dyn fel y mae wedi ei argraffu ar y wyneb, ac yn mynegiad ei wynebpryd. Y maent yn ymddiried mewn rhai ar unwaith, ac oddiwrth ereill y maent yn ffoi yn naturiol a greddfol. Y maent yn adwaen dyn creulawn ac hunanol cynted ag y gwelant ef, cyn y byddo yn siarad neu gyflawnu unrhyw beth i ddangos ei dueddfryd. Y mae ei gymmeriad wedi ei ysgrifenu yn amlwg yn ei edrychiad; ac wrth yr ymddangosiad allanol, gallwn ddweyd pa beth yw y cymmeriad mewnol heb lawer o anhawsdra, pa beth yw galwad, chwaeth neillduol, a gogwyddiad meddwl person sydd ddyeithr i mi. Gallwn eu darllen wrth droi tudalenau yr *album*. Gallwn eu darllen fel ydym yn gweled y dynion eu hunain. Felly hefyd y cyfreithiwr, y meddyg, y masnachydd, yr ysgolfeistr, yr offeiriad—y mae ganddynt oll eu hedrychiadau neillduol, y rhai ydynt, ar wahan oddiwrth eu gwisg allanol, yn amlygu dirgelwch eu galwadau dyddiol. Yn y cyfeiriadau hyn y maent yn arfer eu galluoedd, eu meddyliau, a'u gofalon dyddiol, ac megys yn argraffu eu hunain yn eu gwynebau mewn arwyddluniau y gall dyn eu darllen.

Meddyliwch a sylwch pa fodd y mae yn bod yn mhlith y bobl a adwaenoch, a chewch weled fod gwynebau yn mynegu tueddiadau—fod y gwynebpryd yn ddarlun cywir o'r dyn mewnol. Yr ydych yn tynu lluniau eich hunain fel y mae eich dyddiau yn treiglo ymaith. Nid oes modd celu dim, ac y mae pob edrychiad a gweithred o'r eiddom yn dangos pa beth ydym. Peth prysur a sobr yw hyn o beth, onide, sef cymmeryd y lluniau a'u dwyn? Llawer mwy prysur a sobr, yn wir, nâ sefyll dros ychydig eiliadau o flaen peiriant y goleugraffydd. Meddyliwch beth yw bod yn feddiannol ar wynebpryd lleidr—lleidr wedi ei ysgrifenu yn amlwg ar eich edrychiad!

Y mae llyfr yn llys y dref, yn yr hwn y cedwir lluniau y bobl sydd wedi eu profi yn euog o droseddau yn erbyn cyfreithiau ein gwlad, dynion ieuainc a hen, merched a bechgyn o amryw ddosparthiadau; ond y mae yn perthyn iddynt oll ryw edrychiad neillduol—rhywbeth na ellwch chwi ddim traethu beth ydyw. Pan y maent yn hen droseddwyr, y mae eu hedrychiad yn amlwg iawn, ac ni all neb, braidd, ei gamesponio. Felly, hefyd, os ewch i lys dychrynfeydd neu arddangosfa gwaith cwyr (*waxwork*), lle y cedwir lluniau rhai ydynt wedi llofruddio ereill, gwelwch debygrwydd cyffredin y creulondeb sydd wedi ei argraffu ar y gwynebpryd—nod gyffelyb i eiddo Cain. O'r

fath beth dychryullyd, gan hyny, yw dyfod yn ddarlun byw o nwydau drwg, dymuniadau ac awyddau drygionus! Etto, os ymbleserwn ynddynt, y maent yn gosod eu nod arnom yn y fath fodd nad allwn eu rhwbio allan. Ond o'r tu arall, y mae yn beth pleserus i feddwl fod daioni, yr un mor sicr â hyny, yn ysgrifenu ei lun, yn paentio ei ddarlun ar yr ochr allanol. Os yw dyn yn feddiannol ar feddyliau cariadus a thyner a thosturiol, nid yn rhwydd y gallwn ei gamsynied a'i osod allan fel dyn creulawn. Os yw yn union a didwyll, gellwch ddarllen ei gymmeriad yn ei wyneb. Yr ydych yn ymddiried ynddo yn reddfol. Y mae hyd y nod y gair caracter yn golygu y treiddiad, y toriad i fewn i'n natur, fel pe buasai yn garreg oleugraffedig, neu blât dur o'r nwydau, yr awyddau, ac arferion ein bywyd. Fel y ffurfiwn ni y natur, y mae ef yn ffurfio y dullwedd, yn argraffu ei ddarlun mewn modd diwyrni.

Y mae ail ffordd, yn yr hon y mae bywyd yn cymmeryd ein lluniau. Hyny yw effaith ein bywydau. Y mae canlyniadau yr hyn ydym yn gyflawnu bob amser megys yn ymgymmysgu â'r hyn ydym. Y mae ein natur yn dyfod allan yn ei gwaith, ac yn cael ei dangos ynddo. Felly y mae yn bod gyda golwg ar waith yn gyffredin. Y mae gan ein garddwr, hyd y nod pan yn palu a rhacanu y gwely blodau, ryw ddull o gyflawnu ei waith mewn modd gwahanol i bawb ereill. Y mae y saer celfi yn gosod ei hun yn y cadeiriau a'r byrddau mae yn eu gweithio, fel y byddont rywbeth yn wahanol i'r gwaith fyddo yn cael ei droi allan gan ddyn arall, ac yn neillduol mewn celfyddyd gywrain. Y mae yr hyn yw dyn yn cael ei amlygu yn yr oll y mae yn gyflawni, a gall y sawl sydd yn ei adnabod adwaen y darn lleiaf o'i waith.

Y mae ystori am baentiwr, yr hwn, wrth fyned i mewn i fyfyrgell un arall, a gweled darlun yno, a gymmerodd frwsh ac a ychwanegodd ychydig linellau ato. Pan ddaeth perchenog y fyfyrgell i mewn, a gweled y rhanau oedd y paint ffres ar ei ddarlun, dywedodd, "Y mae Giotto wedi bod yma; ei waith ef yw hyn." Y fath luniau y mae dynion, yn y modd hwn, wedi eu paintio o honynt eu hunain ar gymmeriadau eu cyfeillion a'u hedmygwyr! Yr oedd Napoleon, er enghraifft, er yn awyddus, ie, yn eiddigeddus dros gael gallu ac enwogrwydd, yn ddiegwyddor, yn fostiwr, ac yn gelwyddwr, ond etto, yn ddyn mawr, mor bell ag oedd deall ac yni cymmeriad yn myned. Argraffodd ei ddelw ar y genedl Ffrengig, gwnaeth hi yn debyg iddo ei hunan, a thros genedlaeth gorfododd hi i efelychu ei feiau, oblegyd ei bod yn edmygu ei enwogrwydd.

I droi at esiampl arall wahanol iawn, gwelwn pa fodd y mae yr Iesu, drachefn, yn byw mewn eneidiau tebyg iddo ef ei hunan; pa fodd y mae ei dosturi, ei dynerwch, ei ffydd glir, a'i ymddiried, yn cael ei eni, neu eu dwyn i'r amlwg yn mywydau dynion da, ac ni ellir eu hymlid o'r byd; ac ni fydd byth i ballu achosi y cyfryw rinweddau yn ysprydoedd y sawl sydd feddiannol ar ei ysbryd, sef ei wir ddysgyblion yn mhob oes o'r byd.

Y mae genym ni luniau ein hunain o'n tueddiadau ac o'n natur wedi eu cymmeryd yn ein gwynebau, yn ein gwaith, a'n dylanwad;

ac os felly y mae yn bod, pa beth yw y meddylddrych sydd yn ymgynnyg i ni oddiwrth wybod felly? Dylai ein dysgu ni oll, bid sicr, mewn modd amlwg iawn, y pwys mawr, annghymharol fawr, o fod yn union, yn gariadus, a gwir. Bydd pob peth i ddyfod allan yn narlun ein heneidiau. Ac os, pan eisteddwn i lawr i gymmeryd ein llun, y bydd i ni gymmeryd gofal i edrych oreu y gallom, a chael sefyllfa dda i eistedd arni yn ddigyffro, fel na allo dim ymyraeth â gwaith yr haul, y mae yn rhaid i ni, yn yr un modd, feddwl a gofalu am y ffordd neu y modd ydym yn eistedd i lawr dros ein bywyd i oleugraffu ein hunain.

Y mae hyn i gael ei effeithio trwy gymmeryd gofal mawr o bethau bychain, ac o'r gweithredoedd ydynt unigol a dibwys, efallai, yn ngolwg rhai dynion. Dyma'r ffordd mae i ni ffurfio cymmeriad, a gwneyd ein natur y peth y dylai fod. Yr un fath yn union ag y cyfnewidiwyd y maes yn felyn i'r cynanaf, o'i sefyllfa anngwrteithiedig i'w sefyllfa ffrwythlon trwy ei wrteithio a thaflu yr had unigol iddo. "Aeth hauwr allan i hau yn ei faes, a syrthiodd peth ar dir da, a ddygodd ffrwyth ar ei ganfed." Dyma beth yw cyfraith yr had drwg neu dda, efrau neu wenith. Yr ydych yn hau gweithred, drwg neu dda; yr ydych yn medi arferiad. Yr ydych yn hau arferiad; yr ydych yn medi cymmeriad. Yr ydych yn hau cymmeriad; yr ydych yn medi tynghed. Y mae yr hyn yw ac a fydd y cymmeriad a'r dynghed yn ymddybynu ar y gweithredoedd, y gweithredoedd bychain, y rhai allant ymddangos yn ddibwys i rai; ond dyma'r pethau sydd yn ffurfio ac yn rhoddi cyfeiriad i'r bywyd. Dyma y rhai sydd ac a fydd i gyhoeddi gwae neu wynfyd uwch ein penau, ac yn ein calonau.

M.

CLEON A FI.

Cleon sydd â'i filwn acer, heb yr un wyf Fi;
Cleon sydd yn byw mewn palas, mewn gwael fwthyn, Fi:
Cleon sydd â'i aur ac arian, heb 'r un geiniog Fi,
Ond y tlottaf o'n dau ydyw Cleon, ac nid Fi.

Cleon, wir, sy'n berchen tiroedd, ond 'r olygfa Fi,
Nis gall cyfoeth brynu'r pleser rodda'i swyn i mi.
Cleon faga ddiogi anfad, bywiog nerth wnaf Fi;
Ef' mewn melfed, Fi mewn ffwstian—harddach dyn wyf Fi.

Cleon sydd yn gaeth i rodres, rhydd a llon wyf Fi;
Tala ugain o feddygon, dim yr un wnaf Fi;
Gyda'i gyfoeth a'i ofalon, erch ei fynych gri,—
Angeu ddaw, fe'm caiff yn barod, dedwydd ddyn wyf Fi.

Ni wel Cleon swyn mewn natur—yn y lili, Fi;
Ni chlyw ef 'r un anthem beraidd yn y môr, llawn bri;
Natur gana im' bob amser, gwrandaw'n astud, Fi:
'Stâd am 'stâd, pwy a newidia? Pwy, yn wir?—Nid Fi.

Medi 25ain, 1886, *Cyfieithad gan*
D. Lloyd Evans,
Ysgol y Bwrdd, Pontshân.

ADDYSG GREFYDDOL EIN HIEUENCTYD.

Yn ei bapyr rhagorol ar y pwnc hwn, a ymddangosodd yn y rhifyn diweddaf, mae Mr. Thomas, Pantdefaid, ar ol cyfeirio at y ffaith fod penau teuluoedd yn ein plith, i raddau pell, yn esgeuluso y ddyledswydd o ddysgu egwyddorion Undodaidd i'w plant, yn ysgrifenu fel hyn gyda golwg ar ddiffygion ein Hysgolion Sul:—"Y mae ein pobl ieuainc yn awr yn gyffredinol yn cael eu codi i fyny mewn dygn anwybodaeth o'r athrawiaethau *neilldaol* a goleddwn fel plaid, ac felly, er yn Undodiaid o ran proffes, y maent yn analluog i brofi y pethau sydd â gwahaniaeth rhyngddynt. Nid dysgu'r ieuenctyd i ddarllen yn unig ddylai fod prif nod athrawon ein Hysgolion Sul. Mae hyn yn dda, ond nid yw yn myned yn ddigon pell; mae eisieu dwyn allan alluoedd y meddwl a'r deall; mae eisieu eu dysgu i resymu a barnu gwahanol athrawiaethau, fel y byddont yn abl i roddi rheswm dros y gobaith sydd ynddynt." Rhaid i ni oll gyfaddef fod yr hyn a ddywed Mr. Thomas yn wir; ond credaf, er hyny, nad yw y bai ddim yn gorphwys i gyd ar athrawon ein Hysgolion Sul. Mae rhywfaint o hono i'w briodoli i'r diffyg o'r moddion angenrheidiol at y gwaith hwn. Nis gellir cario un gorchwyl yn mlaen heb yr offer priodol, ac yn sicr, mae *tool-chest* ein Hysgolion Sul Undodaidd yn Nghymru yn ddigon tlawd. Nis gwn am un llyfr a ddefnyddir ynddynt wedi ei gyfansoddi gan Undodwr, gyda'r eithriad o "Egwyddorwr" y diweddar John Jones. Amcan hwnw yn unig yw dysgu darllen, ac nid yw o un help yn y cyfeiriad a nodwyd. Wrth gwrs, mae y diffyg hwn yn codi oddiwrth fod yr enwad mor fychan, ac o ganlyniad, mor analluog i fyned i'r draul o gyhoeddi llyfrau pwrpasol ar gyfer mor ychydig o ysgolion. Yn Lloegr y mae yn wahanol. Mae gan yr Undodiaid yno eu "*Sunday School Association*," gyda'r amcan o ddarparu *tool-chest* yn llawn offer pwrpasol at wasanaeth eu Hysgolion. Cyhoedda y gymdeithas hon lyfrau gwerthfawr o flwyddyn i flwyddyn, heblaw dau bapyr misol, "*Young Days*," a'r "*Sunday School Helper*." Saif yr iaith ar ein ffordd ni i ddefnyddio y llyfrau hyn; ac ar ambell i adeg, yn yr olwg ar dlodi ein llenyddiaeth Gymreig, a chyfoeth digymhar llenyddiaeth ryddfrydig y Saeson a'r Americaniaid, yr wyf yn cael fy nhemtio i

bechu, ac i ddweyd, "O na fuasai yr hen Iaith Gymraeg wedi ei chladdu cyn i mi erioed gael fy ngeni." Ond be' well ydwyf o bechu, ac edifarhau ar ol hyny? Yr wyf yn gwybod fod yn rhaid dygymmod â'r hen sefyllfa, a gwneyd y goreu o honi; a gwneyd y goreu o honi oedd penderfyniad cyfarfod cyntaf Undeb Gweinidogion Ceredigion, a gymmerodd le Mai 19eg, 1886. Siaradwyd yno am yr angen a fodolai yn ein teuluoedd, ac yn ein Hysgolion Sul, am lyfr a fyddai yn cynnwys mewn cylch bychan grynodeb o'r hyn a credir yn gyffredinol yn ein plith, a'r rhesymau paham y credir ef—mewn gair, egwyddorion y ffydd Undodaidd yn cael eu hegluro mewn iaith syml, ac mewn ffurf addas i bobl ieuainc. Gan fod llyfrau o'r natur hwn i'w cael yn Saesneg, barnwyd nad oedd yn angenrheidiol i dreulio amser i gynnyrchu llyfr gwreiddiol, a phenderfynwyd cyficithu "*Manual of Unitarian Belief*" Dr. James Freeman Clarke, o Boston, America. Ymgymmerodd y Parch. T. Thomas â'r gwaith, yr hwn, erbyn hyn, sydd wedi ei gwblhau mewn modd a rydd yn ddiamheu foddlonrwydd perffaith i bwy bynag a'i darlleno. Mae y llyfr yn awr yn llaw Mr. Jenkin Howell, argraffydd yr Ymofynydd. Ar ddiwedd y llyfr, yr ydys wedi ychwanegu rhestr o weddiau a gyfansoddwyd gan aelodau yr Undeb at wasanaeth yr Ysgolion Sul. Bydd y llyfr o'r un plyg ag "Emynau Jones," a rhif ei dudalenau o 70 i 80. Dysgwylir y gellir ei werthu wedi ei rwymo am 6ch., feallai ychydig yn rhagor. Gwerthir ef am y *cost price*, am na ddysgwylir *profit* gan neb. Cynnwysa y gwaith un-ar-ugain o bennodau. Ar ddiwedd pob pennod, mae rhestr o ofyniadau yn ymwneyd â sylwedd y bennod, ac hefyd, yn awgrymu i'r athraw faterion creill yn dal perthynas â'r pwnc mewn llaw. Mae cynnwys y llyfr fel y canlyn:—Crefydd yn angenrhaid i ddyn; Cristionogaeth; Undodiaeth; y Beibl; y Gred mewn perthynas i Dduw; y Drindod; Iesu Grist; Ffydd a chred mewn perthynas i Grist; Gwaith Crist; yr Ysbryd Glân; y gred Undodaidd am Ddyn; Iawn a Chymmod; Troedigaeth ac Adenedigaeth; Gweddi; yr Eglwys; Credöau; Cristionogaeth Ryddfrydig a Rhesymol; Dyledswydd Grefyddol; y Bywyd Dyfodol; Prawf, Barn, ac Ad-daliad; Nefoedd ac Uffern. Fel esiampl o'r gwaith, rhoddaf gyficithad o'r bennod ar

"DDYLEDSWYDD GREFYDDOL.

Mae Undodiaid yn credu fod holl ddyledswydd dyn yn gynnwysedig mewn "gwneuthur barn, hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda Duw" (Micah vi. 8); mewn caru Duw â'r holl galon, a'n cymmydog fel ni ein hunain. Credant mai hanfod crefydd yw daioni; fod "y pur o galon yn gweled Duw;" a bod pwy bynag sydd yn gwrando ar eiriau Crist, ac yn eu gwneuthur, wedi adeiladu ei dŷ ar y graig (Matt. vii. 24). Credant os bydd ynom ni ddymuniad difrifol i arwain bywyd daionus, y gallwn ymddiried yn yr addewid fod "yr hwn sydd â newyn a syched arno am gyfiawnder yn cael ei ddiwallu;" ac os byddwn ni yn barod, ar ol syrthio, i edifarhau, ac i adael ein pechodau, mai "ffyddlawn yw Efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddiwrth bob annghyfiawnder (1 Ioan i. 9).

Yr ydym yn credu fod y dyn gwir dda yn ffordd iachawdwriaeth, gan nad beth yw ffurf allanol ei grefydd. Moesoldeb arwynebol, heb ei wreiddio mewn egwyddor, nid ydym yn ei alw yn ddaioni; ond pwy bynag sydd yn ceisio gwneyd ewyllys Duw, a bod yn ffyddlon a chyfiawn tuag at ddyn, bydded ef bagan neu Gristion, yr ydym yn credu y caiff ef ei gymmeradwyo gan Dduw, Tad pawb (Actau x. 25; Matt. xxv. 34—51; Rhuf. ii. 14—16).

Mae Undodiaid yn ystyried daioni fel y dyben, a gweithredoedd crefyddol fel moddion a chynnorthwyon i gyrhaedd y dyben hwnw. Daioni mewnol y galon yn cael ei amlygu gan ddaioni allanol mewn bywyd yw y peth blaenaf ac hanfodol; mae crefydd er mwyn daioni, ac nid yw yn perthyn yn unig i'r Eglwys a'r dydd Sul, ond i bob man ac i bob adeg. Rhaid iddi fyned gyda ni i'n cartref, i'n gwaith, i bob man, i fod yn nerth ac yn gymhorth bob dydd. Mae crefydd wedi ei rhoddi i wneyd yr oll o'n bywyd yn gyssegredig, i sancteiddio masnach, gwleidyddiaeth, pleser, gwaith, a'n holl gyssylltiadau y naill a'r llall.

GOFYNIADAU.

Pa beth yw dyledswydd dyn? A ydyw yn bossibl i'w wneyd i gyd? Beth yw daioni? A ydyw cariad at Dduw ac at ein cymmydog yr un fath gariad? A ydych chwi yn caru eich hun? Os ydych, beth ydyw ystyr "caru ein cymmydog fel ni ein hunain?" A ydyw cyfiawnder yn ddaioni? Beth ydyw eich amcan blaenaf? A allwch chwi ddweyd fod genych chwi amcan teilwng, ac etto eich bod yn syrthio yn fyr o i gyrhaedd? Pan yn methu cyrhaedd eich amcan, a ydych yn cael eich digaloni? Yn mha fodd y dylech deimlo? Wrth bwy y dylech gyfaddef eich pechodau. A ydych chwi byth yn gwneyd esgusodion? Beth yw moesoldeb arwynebol? A ydych chwi wedi adnabod dynion gwir dda nad oeddent yn cytuno â chwi mewn barn grefyddol? Enwch rai personau. Beth yw "ffordd iachawdwriaeth?" Yn mha beth mae gwir foesoldeb wedi ei wreiddio? A ydyw gwneyd ewyllys Duw yn beth gwahanol oddiwrth credu ynddo? A ydyw ei gwneyd yn foesoldeb? A ydyw credu ynddo yn grefydd? Paham mae y gair "crefyddol" yn cael ei osod ar ol y gair "dyledswydd" ar ddechreuad y wers hon? Beth ydyw ammod wirioneddol ein cymmeradwyaeth ger bron Duw? Pa adnodau sydd yn dangos sut y mae Duw yn barnu? Beth feddylir wrth alw daioni y dyben a gweithredoedd crefyddol y moddion? Beth yw gweithredoedd crefyddol? A allwn ni fod yn dda hebddynt? O ba beth y dylai daioni allanol darddu allan? Os oes ganddo ryw ffynnonell arall, a ydyw yn fynych yn methu? A ddylech chwi fod yn well un diwrnod na'r llall? Yn mha le y dylech chwi fod yn dda? Paham mae crefydd wedi cael ei rhoddi i ni? A ydyw cyfarfodydd dydd Sul yn ddigon ou hunain i'n gwneyd ni yn dda? Yn mha fodd y dylai crefydd ddylanwadu ar ein holl fywyd?"

Dylwn ddweyd wrth derfynu mai fy nghyfieithad fy hun yw yr uchod. Fel mae'r anffawd, nid yw cyfieithad Mr. Thomas wrth law. Sylwed y darllenydd hefyd ar yr hyspysiad a geir ar yr amlen.

W. J.

CAPEL NEWYDD CAERDYDD.

Gosodwyd carreg sylfaen y capel i lawr prydnawn dydd Iau, Hydref 14eg.

Mae llawer dymuniad wedi ei ddangos o bryd i bryd i gael capel newydd yn Nghaerdydd, a llawer cais a wnaed gan ein hen gyfaill, John Rees, *grocer*, hen gyfaill fu'n dyfod i fyny am flynyddau unwaith y mis i Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar. Bu lawer tro ar y neges gyda'r diweddar Barch. W. James, Bristol, yn ceisio ei ddylanwad ef gyda'r achos. I un W. Nicholson, fodd bynag, mae y clod yn ddyledus o roddi'r cychwyniad sydd wedi byw hyd yn awr, ac i bob ymddangosiad, wedi ei goroni â llwyddiant. Yn mis Tachwedd, 1879, yr ymddangosodd llythyr oddiwrth Mr. Nicholson yn y *S. W. Daily News*, yn holi a oedd Undodiaid yn y dref. Y canlyniad o'r ymholiad hwn oedd cynnulliad o ryw 20 o bersonau, y rhai fuont am dymhor yn cwrdd bob nos Sul yn nhŷ Mr. Nicholson, mewn cyfeillach grefyddol. Deallwn fod Mr. Nicholson, er ys rhai blynyddau, wedi myned i New Zealand. Wedi hyny, sierhawyd ystafell, a cheisiwyd gan y Parch. Nestor R. Williams i gynnal y gwasanaeth Undodaidd cyntaf yn y dref. Bu amryw weinidogion cymmydogaethol yno, wedi hyny, yn gwasanaethu yn eu tro; a bu un Holland yn pregethu am chwe' mis gyda chryn lwyddiant. Mai 21ain, 1882, y daeth y Parch. Hobart Clarke ar dreial, a chafodd wahoddiad i aros.

Bydd y capel mewn man canolog, ac heb fod yn mhell oddiwrth y Brif Ysgol. Costiodd y tir tua £700, ac y mae tua £2,000 mewn llaw ar gyfer y £3,000 a fydd yn debyg o fod yn angenrheidiol.

Gosodwyd y garreg sylfaen i lawr yn mhresenoldeb tyrfa luosog, gan Miss Marian Thompson, o'r Breswylfa. Brawd Miss Thompson, Mr. W. H. Thompson, bargyfreithiwr, ddarfu sierhau y tir, ac y mae'r teulu, mewn llawer ffordd, wedi bod yn gynnorthwyol i lwyddiant yr achos. Cyn i Miss Thompson fyned trwy y seremoni, yr oedd Mr. Clarke wedi dechreu y cyfarfod trwy weddi. Ar ol hyny, darllenwyd adroddiad o hanes y mudiad hyd yn bresenol gan Mr. W. H. Thompson, oddiwrth yr hwn yr oedd yn amlwg mai y rhai o'r mwyaf gweithgar mewn cyssylltiad â'r achos, heblaw y rhai enwyd eisoes, oedd Mr. Hammett a Mr. Lewis Llewelyn. Nid yw y ddau frawd hyn wedi arbed na thraul na thrafferth i geisio dwyn y mudiad i dorfyniad llwyddiannus. Hir y parhaont gyda'r gwaith da. Wedi darllen yr adroddiad, gosodwyd ef, gydag enwau amryw ffyddloniaid, mewn potel dan y garreg sylfaen. Yn mhlith y presenolion, gwelsom, heblaw cyfeillion lleol, Mr. C. H. James, A.S.; y Parch. J. E. Manning, M.A. (Abertawe); Iorson a Taylor (Llundain); Mr. a Mrs. Rees, Wattstown; Mr. a Mrs. Davies, Cefn; Mr. a Mrs. Lloyd, Cwmbach; Mr. a Mrs. Phillips, Newton; Mr. a Mrs. Jones. Mrs. Davies, Miss Jones, Aberdar, &c. Terfynwyd y cyfarfod trwy gyhoeddi'r *benediction* gan R. J. J.

Ar ol tê, yr hwn oedd yn rhad i bawb, mewn neuadd gyfagos, cafwyd cyfarfod arall dan lywyddiaeth Mr. H. W. Thompson, a galwyd

ar y Parch. R. J. Jones i siarad. Dywedodd ei fod yn falch cael yr anrhydedd o fod yn bresenol, ac i weled fod ymdrechion y gorphenol yn argooli mor llewyrchus yn bresenol. Annogai bleidwyr yr achos da i undeb a chydweithrediad, fel ag i geisio achub rhai o'n pobl ieuainc oddiwrth y peryglon sydd mor agored iddynt mewn tref fawr.

Galarai Mr. C. H. James weled ofergoeliaeth yn gwasgu mor gyflym yn y wlad; fod synnadau yn cael derbyniad, heddyw, ag oeddynt yn gweddu yn well i'r Oesoedd Tywyll; fod dynion yn credu mewn breuddwydion a gweledigaethau; fod y pethau hyny yn codi fynychaf oddiar ddiffyg treuliad. Rhagoriaeth Undodiaeth oedd ei bod yn bur, yn rhesymol, ac yn eglur. Llongyfarchai y cyfeillion yn Nghaerdydd ar y *step* presenol, a gobeithiai fod llwyddiant mawr yn aros iddynt.

Annogai Mr. S. S. Tayler hwynt, yn mhlith pethau ereill, i ofalu am yr ieuainc, mai hwynt-hwy oedd gobaith y dyfodol, a'r defnyddiau o'r rhai y gwneir ein cynnulleidfaoedd yn mhen ychydig bach. Ni ddylent esgeuluso yr Ysgol Sul.

Dywedodd Mr. Nestor R. Williams ei fod yn falch i fod yn bresenol; mai efe gafodd yr anrhydedd o bregethu gyntaf iddynt.

Ar ol yspaid o ddeng munyd, galwyd ar y Parch. E. W. Lloyd, yr hwn a draddododd araeth wresog iawn, yn annog pawb i ddal ati, a bod yn ffyddlawn.

Yr oedd y Parch. H. Ierson yn barnu y dylent feithrin yspryd gwroldeb, fel y gallent frwydro yn erbyn pob gwrthwynebiad. Dylai fod gan bob Undodwr asgwrn cefn i'w alluogi i sefyll yn erbyn pob ymosodiad. Dyma, yn ddiamheu, fan gwan Undodiaid diweddar—diffyg asgwrn cefn; ac felly llyneir hwy i fyny gan y dylanwad cyntaf ddelo heibio. Dylent gydymannog eu gilydd i ffyddlondeb.

Y Parch. Mr. Blatchford, Bristol, a geisiai ddangos fod angen mawr am achos cyffelyb i'r eiddynt hwy—yn dal yn ngwydd y byd syniadau rhesymol, doeth, a chyssurlawn. Dangosai ragoroldeb y syniadau Undodaidd ar y syniadau poblogaidd.

Gadawodd ein cofiadur cyn i'r cyfarfod ddybenu, ond yr ydym yn meddwl fod y gweinidog, Mr. Clarke, wedi talu diolch i'r gwyddfodolion oll, ac i bawb a gymmerasant ran yn y cyfarfod, am eu gwasanaeth. Cawsom dipyn o amrywiaeth yn awr ac yn y man yn ystod y cyfarfod, sef ychydig o ganu melus. S. N. S.

EIN RHWYMEDIGAETH I'R BEIBL.

Moddion i gyrhaedd amcan mawr ydyw y Beibl. Yr amcan i'w gyrhaedd ydyw dangos agosrwydd Duw at ddyn, a chael dyn yn ol at Dduw. Ac os yw teilyngdod y moddion i'w benderfynu oddiwrth natur y dyben sydd i'w gyrhaedd, yna, beth bynag ydyw eich galluoedd desgrifiadol, dyma gyfle i chwi ddangos i'r byd pa beth ydynt. Nid oes achos dweyd wrth neb o ddeiliaid yr Ysgol Sabbothol fod y

testyn yn un pur gyfoethog, yn meddu llawer o arweddion nad yw yr amser a roddir i ni ddarllen y papyr hwn yn caniatau eu hawgrymu, chwaethach eu hyspyddu. Gwelwch, felly, mai fy nyledswydd ydyw ymdrechu nodi y pethau hyny a ymddengys i mi fel y rhai ag sydd, yn y modd mwyaf uniongyrchol, yn cyfansoddi ein rhwymedigaeth i'r Beibl. Heb wastraffu rhagor ar eich hamser, mi a ddechreuaf trwy ddweyd fy mod yn teimlo ein rhwymedigaeth i'r Beibl yn y lle cyntaf, am mai efe ydyw y datguddiad helaethaf a chyflawnaf o gymmeriad a gogoniant Duw i'r byd. Yn yr ystyr yma, mae y Beibl yn llyfr y llyfrau, ac mewn modd arbenig yn gyfrwng gwybodaeth ar ei ben ei hunan. Nid wyf, oblegyd hyn, am yspeilio natur o'r dim lleiaf o'r anrhydedd a berthyn iddi fel cyfrwng i arddangos hyny o Dduw ag a wna hi. Gesyd natur Dduw fel bod mawreddog iawn—yn Dduw Hollalluog, yn grëwr a chynnaliwr bywyd, yn Dduw Hollwybodol, yn gwybod y cwbl o'r dechreuad ac er cynt yr hyn ni wnaed etto. Prawf cynllun y greadigaeth hefyd ei ddoethineb annghymharol. Ond er mai priodoleddau naturiol Duw ydyw y llinellau amlycaf yn ei gymmeriad a arddangosir i ni gan natur, mae'n wir y ceir rhyw ychydig o oleuni ar ei briodoleddau moesol ganddi hefyd. Dangosir ef i ni fel un anmhleidiol—yn gwlawio ar y cyfiawn a'r annghyfiawn. Eithr hyd y nod yn hyn, Duw yn cael ei amlygu trwy ddeddfau naturiol sydd yma wedi'r cwbl, a phwy bynag a'u troseddo a ddwg ei benyd ei hun. Nid wyf yn un o'r rhai hyny ag sydd yn credu mewn dyrchafu datguddiad ar draul darostwng natur, oblegyd y mae i'r ddau eu lleoedd priodol, ond credwyf yn gydwybodol nad yw natur o'i chymharu a datguddiad fel cyfrwng i osod allan gymmeriad Duw yn amgen nâ dweyd mai "cymmylau a thywyllwch sydd o amgylch ei orseddfainc, a bod ei farnedigaethau yn y dyfnder." Eithr tra gwahanol i hyn ydyw datguddiad. Yma hefyd y ceir golwg ar Dduw Hollalluog, ond Hollalluawgrwydd yn ymorfoleddu yn ngorlawnderau cariad ydyw. Yma hefyd y ceir golwg ar Dduw Hollwybodol, ond Hollwybodolrwydd yn cael ei reoleiddio gan burdeb a pherffeithrwydd moesol ydyw. Yma hefyd y ceir golwg ar Greawdwr, eithr Creawdwr yn cael ei osod allan fel Tad yn teimlo dyddordeb arbenig yn holl amgylchiadau ei blant ydyw; ïe, nid yw hyd y nod gwallt ein penau yn ddiystyr ganddo Ef. Os oes rhywbeth yn y Beibl (fel y credwyf fod llawer) nad yw o fewn cyrhaedd iaith i'w fynegu'n llawn, dyma un o honynt—gosod allan werth anmhrisiadwy y ffaith fod un o'r *family ties* mwyaf cyssegredig yn ngolwg dyn wedi ei sefydlu rhyngom â Duw nefoedd—awdwr y bydysawd, ffynnonell bywyd, a môr anhysbyddadwy o ddedwyddwch—sef y berthynas sydd rhwng tad a phlentyn. A dysg y Beibl ni mai i'r dyben o hyspysu'r byd o'r berthynas hon y danfonodd Duw ei fab i'r byd i'n cymhwyso trwy burdeb i fwynhau cymmundeb ag ef am byth. Un o amcanion datguddiad ynte, ydyw perffeithio y ddynoliaeth trwy ei dal yn ngoleuni llachar cymmeriad dysglaer Duw. A hyderaf nad oes neb ag sydd wedi rhoddi yr ystyriaeth ddyladwy i'r cwestiwn, a ryfyga ddweyd nad yw y darluniad a roddir i ni o Dduw gan y Beibl yn gwneuthur ein rhwymedigaeth iddo yn fawr iawn a diesgus. Arweinir

ni yn awr yn anocheladwy, i'm tyb I, at *yr ail beth* y bwriadwyf alw eich sylw ato (chwi faddeuwch i mi am gyntaf, ail, a thrydydd, oblegyd, er nad pregethwr wyf, rhaid i mi wrth gynllun i osod allan fy meddwl), sef y Bôd pur a pherffaith y dygir ni ato gan y Beibl yn ei ddylanwad ar y sawl a ddygir ato, neu mewn geiriau ereill, dysgeidiaeth y Beibl, yr elfen bwysicaf yn ffurfiad a dadblygiad y cymmeriad dynol. Desgrifiad pur ddcheuig o ddyn ydyw yr hwn sydd yn ei osod allan fel cwyr tawdd. Mae dyn yn fôd ag sydd nid yn unig yn rhoddi argraff i bawb a phob peth o'i amgylch, ond hefyd yn derbyn argraff mewn modd cyffelyb. Effaith uniongyrchol dygiad dyn i gylch mwy perffaith nâ'r un y mae ynddo ydyw ei berffeithio; ac yn ol dysgeidiaeth y Beibl, y mae hwn yn osodiad a wireddir yn ei berthynas a dygiad dyn at Dduw. Y mae yr olwg ar ddyn yn absenoldeb y dylanwad a gyfrenir iddo gan gymmundeb uniongyrchol â Duw yn olwg resynus iawn. Gwir ei fod yn meddu y fath beth a chydwybod, ac o bossibl, y bydd yn ei feddiant ryw syniad am ddyledswydd, ac o'r gwahaniaeth rhwng da a drwg. Ond nid ydyw y naill nâ'r llall o'r tueddediadau cynhenid yma yn dangos fawr o olion bywyd ysprydol, egniol, oddieithr iddynt gael eu bywiocau a'u cynnal gan y Bôd perffaith y dygir ni ato gan y Beibl. Nid ydyw cydwybod o honi ei hunan yn ddigonol i wrthsefyll temtasiynau bywyd. Ni fwriadwyd iddi lywodraethu ei hunan. Y mae dyn etto o hono ei hunan yn grebachlyd a hunanol iawn, yn cael ei reoleiddio yn hollol gan ei nwydau, y rhai a'i dirwasgant i lawr i anobaith a thywyllwch. Y cyfryw ydyw hanes dyn pan yn ceisio byw ar ei adnoddau ei hun, ebai'r Beibl; ac onid ydyw'r olwg arno yn galonrwygol a phruddaidd? Ond unwaith, ebai'r unrhyw lyfr, y deuir a dyn i gymmundeb â Duw y mae yr olwg arno yn dra gwahanol. Fel y mae y rhosyn yn ymagor, yn ymeangu, ac yn ymsirioli pan ddygir ef i oror y goleuni, felly yn hollol y mae enaid dyn pan ddygir ef i gymmundeb à Duw. Y mae bywyd uwchaf y dyn yn derbyn *impulse* cyfangwbl newydd. Y mae ei gydwybod, yr hon oedd o'r blaen yn rhy eiddil a llesg i feddu fawr iawn o ddylanwad arno, yn awr yn rhuo o'i fewn os na cha ei lle fel llywodraethes ei fywyd. Dyma'r sylfaen wedi ei roddi ynte i farweiddiad gweithredoedd y corff. Cynnyrchir yn awr o'i fewn gymdeithasfa o ddrychfeddyliau newyddion a nerthol, y rhai a ffurfiant elfenau moesol ddyn newydd. Meddalheir a diarfogir ei galon elyniaethus. Diwyllia ei alluoedd i garu, a galara yn fwy fwy am ei bechod. Daw i feddwl am addfwynder, i newynu a sychedu am gyfiawnder ac uniondeb, i fod yn dangnefeddus, ac uwchlaw yr oll i fod yn faddeugar a thrugarog. Mewn gair, perffeithrwydd ydyw y nôd at ba un y gogwydda ei holl enaid, oblegyd heb ymdrechu at hwn, anmhossibl ydyw dal cymmundeb â Duw, yr hwn sydd yn berffaith. Dyma arwyddeiriau y Cristion, ac hebddynt nis gall fod yn oleuni i'r byd. Byddai mor anhebyg ceisio cael gan un yn meddu ar y *gems* yma o fywyd ysprydol i fyw iddo 'i hunan mwyach, neu mewn geiriau ereill i fod yn grebachlyd a hunanol, ag a fyddai i gael gan oleuni yr haul a thywyllwch i gyd-fodoli. Nid wrth fod yn grebachlyd a hunanol (*selfish*) y mae gogoneddu y Tad, a

thyma'r peth sydd i'm tyb I, yn cyfrif am y gwahanol arweddion a berthyn i'r bywyd ysprydol y soniwn am dano. Ceir ef yn awr yn ymddadblygu yn y cenadwr, yr hwn sydd yn aberthu ei esmwythyd a'i gyssur personol er mwyn efengyleiddio'r byd; bryd arall yn y gwleidyddwr diwygiadol. yr hwn a ddifenwir mor aml am ei fod yn cloddio o dan seiliau *caste* a'i annghyfiawnder; ac yna yn y dyngarwr prydferth a lafuria'n wastadol i wella cyflwr y tlawd a'r anngenus.

Y mae y bywyd hwn yn sicr yn un gwerthfawr iawn, ond faint bynag ydyw ei werth, i'r datguddiad yma o ewyllys Duw i'r byd yr ydym yn ddyledus am dano, oblegyd iddo Ef yr ydym yn ddyledus am y cyfarwyddiadau hyny a arweiniant i argyhoeddiad y galon, ffurfiad o'r newydd y cymmeriad, yn nghyd â'r dyhead hwnw am fywyd uwch a pharch nad yw yn wybyddus i neb y tu allan i derfynau dylanwad iachusol y Beibl. Pwy, ynte, fedr ddweyd yn iawn faint ein rhwymedigaeth iddo? Ond yn nesaf, y Beibl yn ddyrchafydd cymdeithas. Yr hyn a feddylir genym wrth ddyrchafiad cymdeithas, ydyw cydnabyddiaeth lwyr a hollol o holl hawliau ei deiliaid, fel dynion, beth bynag fyddo eu hamgylchiadau; ac nid oes amheuaeth nad i egwyddorion y Beibl yr ydym yn ddyledus am ein hawyddfryd fel mwyafrif mawr y genedl i ddwyn hyn oddiamgylch. Dywedir fod nodweddion prif ymherodraethau y byd yn gynnyrch llyfrau, ac os felly, y mae yn briodol barnu gwerth y llyfrau wrth gyflwr meddyliol a moesol y bobl. Llyfr y Chineaid yw gwaith Confucius, ac y mae yn ofidus meddwl mai yr hyn oeddynt dair mil o flynyddau yn ol ydynt heddyw. Llyfr Ymherodraeth Fahometanaidd y Twrc ydyw y Koran, ond yn anffodus, nid yw y Tyrciaid yn awr ond Mahometaniaid canrif gyntaf yr Hegira, oddigerth fod eu hyspryd yn fwy eiddil a llygredig, a'u calon yn fwy gwrthwynebol i gynnydd. Llyfr Prydain ydyw y Beibl, ond ar y llaw arall, nid oes neb mor ynfyd ag i gyhoeddi mai yr hyn oedd y Prydeiniaid dri chant o flynyddau yn ol ydynt heddyw. Yma etto, dygir ni at ragoriaeth y Beibl. Yn awr, pe na byddai genym yr un prawf arall, y mae y ffaith fod y Beibl yn gallu moldio cymmeriad yr unigol yn lled-awgrymu ei fod yn cynnwys cyfarwyddiadau i lywodraeth lwyddiannus o gymdeithas, ac yr ydym yn cael fod hyn yn wirionedd. Pe na byddai yn alluog i foldio cymmeriad yr unigol, nis gallai foldio cymmeriad cymdeithas. Yr ammod hanfodol ar y rhai, ebai y Beibl, y mae yn bossibl i gymdeithas i lwyddo, ydyw trwy ganiatau rhyddid hollol i bawb o'i haelodau, ac anmhosibl i ddim fod yn fwy cyfaddas i angenion cymdeithas o fodau rhyddion. Bôd rhydd ydyw dyn meddai ei Grewr, meddai y llywodraethau dynol mwyaf haiarnaidd welodd y byd erioed, ac meddai cynnydd a llwyddiant dyn lle bynag y caniatawyd ei ryddid iddo. Mae y rhyddid y cymhellir ni i'w arfer gan y Beibl yn gynnwysedig mewn ymddwyn tuag at ereill fel y carem i ereill ymddwyn tuag atom ninau. "Onid efe sydd yn dysgu i'r Creawdwr wneuthur o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswylio ar holl wyneb y ddaear;" nad yw corff y tywysog fwy na'r cardotyn, ond "o'r ddaear yn ddacarol," a bod yspryd y gwreng fel y boneddig yn "hiliogaeth Duw;" a cher ei fron ef "nad oes wahaniaeth rhwng

Iuddew na Groegwr, caeth na rhydd, gwrryw na benyw :" ac am hyny, mai dyledswydd pob dyn ydyw "ofni Duw," a "charu ei gymmydog fel efe ei hun." Fel y cymhwysir y gwirioneddau hyn at gymdeithas, y mae yn bossibl i ni gael dirnadaeth o'u gwerth. I'r graddau felly y byddom yn gyfarwydd yn hanes gwledydd, y bydd ein hedmygedd o'r, a'n serch tuag at y gwirioneddau hyn yn ymddybynu. Pwy fedr ddweyd heddyw nad ydyw cymdeithas yn Mhrydain Fawr yn llawer mwy cyssegredig na chyn cyhoeddiad y Beibl? Ysmottyn du ar ein cymmeriad cenedlaethol ydyw ein nodded i gaethwasiaeth, y gyfundraeth druenusaf ag sydd yn hyspys i feddwl dyn oddiar greadigaeth y byd hyd yn awr; nid wedi i'r gwirionedd "nad oes wahaniaeth ger ei fron ef rhwng y caeth a'r rhydd" ddyfod yn gyfarwydd i feddwl y Prydeiniaid, cloddiwyd yn raddol o dan ei seiliau hi, ac erbyn heddyw, y mae'n ddeilchion, a'ch rhyddid cymdeithasol genych chwi a minau. Bu penau coronog drachefn yn y wlad hon yn hyf iawn ar eu deiliaid —yn eu condemnio i farwolaeth heb ganiatad na senedd, na barnwr, na rheithwyr; ac yn wir, mor hyf oeddynt nes honi fod ganddynt hwy hawl ddwyfol i gyflawnu peth mor fudr a hyny, sef dwyn bywyd dyn ymaith oddiar fympwy yn unig. Ond wedi cael *sanction* y Llyfr dwyfol nad yw, yn y llys uwchaf, y "tywysog yn fwy na'r cardotyn," ymosodwyd ar ei drawsarglwyddiaeth, cwtogwyd ei benryddid, fel, erbyn heddyw, nid yw y gwahaniaeth rhyngddo â rhyw ddinesydd arall yn fawr iawn, a hyderus genym ydyw y bydd yn llai etto. Peth arall etto ag sydd yn profi dylanwad iachusol y Beibl ar gymdeithas ydyw, y rhyddid crefyddol a fwynheir genym. Hwyrach fod y rhai hyny o honom ag sydd yn orselog dros ddadsefydliad yr Eglwys Sefydledig yn barod i edliw i mi mai adeilad anorphenedig iawn ydyw ein rhyddid crefyddol, er ein holl ymffrost.

Eithaf gwir, ond er mai peth anorphenedig ydyw, ein dadl yw fod y ffurf bresenol arno yn ddefnydd cyssur sylweddol o'i chymharu â'r cyfnodau tywyll hyny yn hanes ein gwlad, pan y bygythid y tân, y stanc, a'r ffagodau ar y neb a ddatganai ei hawl i farnu drosto ei hun hyd y nod gyda golwg ar faterion o gydwybod. Yn ffodus i ni, nid felly y mae heddyw, beth bynag ydyw anorphenedd ein rhyddid crefyddol. Dylanwad gogoneddus arall o eiddo'r Beibl ydyw yr ymdrech canmoladwy yn y dyddiau presenol i gydraddoli ammodau hanfodol bywyd. Yn awr, tegwch ydyw dweyd nad yw yr enghreifftiau a enwyd, yn ogystal a llawer ereill y gellid eu henwi, ond ffrwythau yn tyfu ar bren y Beibl. Canlyniadau anocheladwy cydnabyddiaeth yr egwyddor fawr o frawdoliaeth dynolryw ydyw yr oll; a pha beth bynag ydyw diffygion ein cyflwr cymdeithasol presenol, yn gystal a'r cyfnewidiadau sydd yn stôr i ddyfodol cymdeithas, mewn cymhwysiad helaethach a chyflawnach o'r egwyddor nefolaidd hon yn unig y mae i ni gyflenwad i'n holl angenion, adnoddau i'n gwneuthur yn gyfundeb llwyddiannus, ac i ddwyn oddiamgylch y sefyllfa ogoneddus hono pan y "byddo cyfiawnder yn teyrnasu o fôr i fôr a heddwch hyd derfynau eithaf y ddaear." Y mae maint ein rhwymedigaeth i'r Beibl felly yn ymddybynu ar iawn brisio y cyfryw sefyllfa.—RHONDDA.

NODYNAU GWASGAROG.

Y "SOUTH WALES DAILY NEWS."

Mewn erthygl ar agoriad y capel newydd yn Nghaerdydd, mae gan y papyr uchod sylwadau dyddorol ar ddyledion y byd i Undodiaeth. Nodir yn mlaenaf ffyddlondeb yr enwad at ryddid crefyddol, ei bod yn wastad yn y ffrynt ar y mater. Ofnwn nad yw pawb Undodiaid, heddyw, ddim yn meddu yr asgwrn cefn angenrheidiol i deilyngu y ganmoliaeth yma. Mae yr Undodiaid wedi rhoddi dyddordeb newydd i'r Beibl, ac wedi ceisio gan ddynion basio heibio'r credoau, a myned at y ffynnon eu hunain. Maent, hefyd, wedi tynu sylw arbenig at ochr ddynol bywyd yr Iesu; lle'r oedd y credoau wedi arwain dynion i ymgolli yn ei dduwdod, y mae Undodiaid trwy eu haddysg wedi ei wneuthur yn feddiant newydd a phersonol, trwy ei ddwyn i berthynas agos â ni. Athrawiaeth arall a phwysig sydd wedi ei dwyn i'r amlwg gan Undodiaeth yw Tadoldeb Duw. Deil y credoau sylw arno fel Brenin, ïe, brenin dwyreiniol, traws, gormesol, ond y mae'r Undodiaid wedi'n hadgofio am Dduw fel Tad. Yn y meddiant o'r fath syniadau ardderchog, oni ddylai Undodiaid deimlo'n falch, a theimlo fod dyledswydd yn galw am ragor o ffyddlondeb a gweithgarwch?

AR BRIODAS

Mr. L. D. Jones, Barley Mow, â Miss Margaret Letitia Davies, Tanyfforest, Llanbedr.

Dau gwmwl gwyn ar fron y nefoedd fry
A nofient fel agerddlong ar y lli';
Ond awel deg ac arogl ar ei min
A chwythodd y cymmylau tlws yn un:
Cyffelyb oedd y Bardd a'i anwyl fun,
Nes chwythwyd hwy gan gariad cryf yn un.

Dwy ffynnon fach ar ael y mynydd mawr,
A'u dyfroedd clir drwy'r blodau'n treiglo'i lawr;
Ond ar y ddol, 'n mysg arogl blodau cun,
Y ddwy a wnawd yn afon deg ei llun:
Cyffelyb oedd y Bardd a'i Letty llon,
Un afon serch sydd mwyach dan eu bron.

Dau dderyn pert a ganai yn y coed,
Yn ysgafn fron, fel geneth ddeunaw oed,

Ar y naill bren, yn mhell oddiwrth y llall;
Ond uno wnaent i wneuthur nyth ddiwall:
Cyffelyb oedd y bardd a'i gariad ferch,
Ond unwyd hwy gan rym rhyw ddwyfol serch.

Eich bywyd fo fel llinyn arian hir,
Yn orlawn o rinweddau dwyfol pur;
A chariad mawr yn goron ar eich pen,
A Nefoedd Duw fo'ch cartre' tudraw'r llen.

Llanddewi-Brefi. D. BYRON LEWIS.

LLYFRAU.

Yn un o'i lythyrau at nith fechan ac anwyl iddi, fe ddywed Macaulay fel hyn:—"Cewch allan fod llyfrau yn well na thartenau a chacenau, yn well na theganau a chwareu, yn well na holl olygfeydd y byd. Pe gwnelai rhywun fi yn frenin mwy nag un a fu byw erioed, gyda phalasau a gerddi, a chiniawau da, gyda gwinoedd a cherbydau, gyda gwisgoedd heirdd a chaunoedd o wasanaethyddion, ar y telerau nad oeddwn i ddarllen dim llyfrau, ni fynwn I fod yn frenin. Byddai'n well genyf fod yn ddyn tlawd mewn *garret*, gyda digon o lyfrau, na bod yn frenin nad oedd yn caru darllen." C. F.

Manion a Hanesion.

Yr oedd yr hen Dr. Johnson yn gallu bod yn draws iawn, megys wrth Iolo Morganwg, pan ofynodd Iolo iddo, mewn siop yn Llundain, pa un o ddau rammadeg a gymmeradwyai iddo ef fel dyn ieuanc. Edrychodd y Doctor ar yr hogyn, ac wedi hyny ar y ddau lyfr, a dywedodd yn sarug iawn y gwnelai unrhyw un o'r ddau y tro yn ddigon da iddo. "Diolch," ebe Iolo, "mi brynaf y ddau er mwyn bod yn sicr." Gallai fod yn *sarcastic* iawn hefyd, megys wrth y myfyriwr ieuanc a ymffrostiai ei fod yn gwybod pedair iaith. "Felly," ebe'r Doctor mawr, "ac y mae genych bedwar gair am un meddylddrych." "You have four words for one idea!"

Hydref 17, 1536, 350 o flynyddau yn ol, y merthyrwyd Tyndal, cyfieithydd y Beibl i'r Saesneg.

Dywedodd Beecher yn ddiweddar, pe cawsai ddewis drachefn ei alwedigaeth mewn bywyd, y dewisai etto fod yn bregethwr o flaen pob peth arall. Yr ydym wedi clywed golygydd YR YMOFYNYDD yn dywedyd yr un peth lawer gwaith, ac nid oes ganddo fe ddim llwyddiant mawr i'w galonogi. Ond o bob swydd, nid oes yr un mor anrhydeddus a bod yn weinidog i Iesu Grist, a cheisio helpu dynion i rywbeth gwell yn y byd hwn a'r byd a ddaw.

Pan esgynodd y frenhines yr orsedd, nid oedd cyfraniadau y llywodraeth at addysg ond £20 mil, yn 1839, yr oeddynt £30 mil, yn 1849 yn £125 mil, £723 mil yn 1859, £623 mil yn 1866, £1533 mil yn 1876, £3248 mil yn 1885.

LLWYNRHYDOWEN.— Cynnaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynauaf eleni fel arferol yn Llwynrhydowen a Llandyssul, ar ddydd Sul, Hydref y 3ydd, ac yn nghapel y Fadfa, dydd Mercher, Hydref y 6ed. Pregethwyd gan y gweinidog, oddiar Luc xvii. 17. Yr oedd capel Llwynrhydowen wedi ei addurno mewn modd prydferth iawn gan Miss Howell, Camnant, gyda chynnorthwy rhai o bobl ieuainc y lle. Anfonwyd y defnyddiau mewn ŷd, llysiau, ffrwythau, a blodau, gan Mrs. Howell, Camnant, Mrs. Jones, Gellifaharen, Mr. Thomas, Penyrallt, &c. Casglwyd yn y tri lle at Drysorfa y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain. Cyfanswm £4 11s. 3d.—W. J.

Cynnaliwyd cyfarfod diolchgarwch am y cynauaf yn H. D. C , Aberdar, Hydref y 3ydd, pan y gwasanaethwyd am 11, gan y gweinidog Saesneg, ac am 2 a 6, gan y Parch T. T. yn Gymraeg. Yr oedd yn dda gan bawb weled a chlywed Mr. T. Yr oedd y cyfarfodydd yn lluosog, a chafwyd casgliadau da—£6 4s. Cyfleir y casgliadau yma i helpu ychydig ar dlodion y gynnulleidfa yn ystod y gauaf. Pregethodd T. T. yn y boreu yn y Cwmbach.

Er fod yr amser yn dlawd, cafwyd gwyl dê a chyngherdd llwyddiannus ryfeddol yn Dowlais, Hydref y 7fed. Cyfranogodd tua 600 o'r tè. Teimlir yn ddiolchgar i'r cyfeillion o Aberdar am help gwerthfawr gyda'r canu.

Cynnaliwyd ein cyfarfod blynyddol o ddiolchgarwch am y cynauaf, nos Wener, Hydref y 1af, yn hen gapel y Nottais. Traddodwyd pregethau grymus ac effeithiol i gynnulleidfa luosog gan y Parchn. W. J. Davies a D. Evans.

WIG.—Cawd cwrdd diolchgarwch am y cynauaf Hydref 18fed. Pregethwyd gan y gweinidog oddiwrth Matt. vi. 8. Yr oedd y capel wedi ei addurno.

GWAHODDIAD IESU GRIST.

Dewch ataf fi, medd Iesu Grist,
Y blin a'r llwythog, pawb sy'n drist ;
O'ch holl flinderau cewch ryddhad,
Dewch yn fy llaw i dŷ fy Nhad.

Chwi afradloniaid, crwydrus, ffol,
Heb oedi'n hwy, O ! trowch i nol,
Dyddanwch cariad, pur, a glân,
Sy'n nhŷ fy Nhad i fawr a mân.

Eich beiau, 'nawr gadewch yn llwyr,
Dychwelwch adref cyn daw'r hwyr,
I wynfyd llawn, O ! brysiwch chwi,
Myfi yw'r ffordd, dylynwch fi.

Danteithion bywiol gwlad y dydd,
Sy'n nhŷ fy nhad, a hyny'n rhydd ;
A thros fy Nhad 'rwy'n genad hedd,
Yn cymmell pawb i dd'od i'r wledd.

Gan hyny, ar fy nghais, O ! dewch,
Cyfiawnder a thrugaredd gewch ;
Gwir gyssur a dyddanwch rhâd,
I'w blant sy'n Ngwynfa lân fy Nhad.

Hydref yr 8fed, 1886. CYNONWYSON.

Guild of the Good Shephard.— Dyna enw cymdeithas yn Lerpwl, a manau ereill, amcan yr hon ydyw cynnyddu cariad brawdol, yn neillduol yn mhlith ein pobl ieuainc, i ddyfnhau eu parch at yr Iesu, ac i feithrin eu teimladau o undeb ysprydol parhaus âg Ef. Ysgrifenydd y gymdeithas yw Mr. George Eyre Evans, mab diweddar olygydd YR YMOFYNYDD.

Fel yma y canodd "Bayron" ar ol darllen yn y papyrau dyddiol am lwyddiant Mrs. Sarah Jenkins, Rhydybenne, drwy gael ei hethol i'r Bwrdd Ysgol ar ben y pôl :—

Cawn Sara Jenkins siriol,—wrth ein bodd,
Yn nerth i'n Bwrdd Ysgol ;
Heb un pall ar ben y pôl,
Llwydd menyw, gall, ddymunol.

Medi, 1886.

Ni wnaed y byd mewn munyd.

Mae Duw yn rhoddi i bob aderyn ei fwyd, ond nid yw yn ei daflu i'r nyth.

Mae rhinwedd a dedwyddwch yn fam a merch.

Mae pob aderyn yn caru ei nyth ei hunan yn well nag un nyth arall.

Pan byddi yn eingion, goddef ; pan yn forthwyl, taro.

Nid ydyw dyn gonest yn waeth am fod ei yn ei gyfarth.

Nid ydyw doethineb bob amser yn siarad yn y Groeg a'r Hebraeg.

Ni elli ddechreu crefydda yn rhy fuan, ond gelli ei gadael i fyned yn rhy ddiweddar.

Gwell yw peidio digio, a gwell, yn yr ail le, ydyw cymmodi yn fuan.

Yr hwn nid oes arno gywilydd, nid oes ganddo gydwybod.

Cadw gwmni da, a bydd yn un o honynt.

Gwell byw yn dda nag yn hir.

—*Detholedig.*

Y BRYCHEUYN A'R TRAWST.

Lamp yw dyn i'w gamp ei hun,
A dall i gamp ei gyfaill;
Ond dall yw dyn i'w fai ei hun,
A haul i feiau eraill:

Y mae gan ddyn drefn i gadw ar ei gefn
Ei feiau ei hun o'r golwg,
Ond gesyd yn fwyn ar gamedd ei drwyn
Fai arall yn eithaf amlwg.—*Ioan Petr.*

Dywedir fod rhai o'r offeiriad wedi eu blino yn dost gan y newydd am Esgob Llundain yn rhywle yn treulio ei wyliau yn ddiweddar mewn trowser cyffredin a het wellt ar ei ben, ac hyd y nod yn teithio mewn cerbyd o'r trydydd dosparth. Mae syniad hynod gan rai am bechod.

Mae Beecher wedi bod yn ddraen yn nghawd yr Orthodox yn ystod ei ymweliad diweddar â'n gwlad ni. Nid oes braidd un pwnc o'r dduwinyddiaeth Galfinaidd nad oedd yn cael teimlo pwysau ei ordd. Tybir mae atto ef y cyfeiria Spurgeon boreu dydd Sul, Hydref 17eg, yn ei weddi: "Arglwydd, cau enau y cablwyr, yn neillduol y rhai a gymmerant arnynt fod yn bregethwyr yr Efengyl, ac nad ydynt ond yn unig yn cablu. O Dduw, bydd drugarog wrthynt, a thro eu calonau fel yr adwaenont dy wirionedd a'i garu, ac fel y gallont bregethu yn nerth y gwirionedd."

Un o ddirgelion mawr bywyd dedwydd yw peidio byth bod ar ffordd ereill.

Un rhwyfus yw yr afon,—i hon rhed
Yr holl nentydd culion;
Yn ddidaw a'i dystaw dôn,
Gan geisio'r aig yn gysson.

D. W. DAVIES.

YR YMOFYNYDD.—Bydd y rhifyn nesaf yn ddiwedd blwyddyn YR YMOFYNYDD, ac yn rhoi cyfleusdra da i'n darllenwyr i wneuthur ymdrech newydd i helaethu'r cylchrediad. Cofier fod rhai yn syrthio allan o'r *ranks* yn barhaus, a bod eisieu llanw eu lle. Byddwn ddiolchgar am bob help.

PRIODASAU.

Gorphenaf yr 21ain, yn nghapel y Fadfa, gan y Parch. W. James, Thomas Thomas, Rhydwen, â Hannah Thomas, Felin Talgarreg.

Hydref y 6ed, yn nghapel y Fadfa, gan yr un, John Hughes, Meinigwynion Mawr, âg Ann Davies, Meinigwynion Bach.

Marwgofion.

Medi 30ain, Thomas Williams, Yswain, Mountain Ash, gynt Cwmneol, Aberdar, yn 69 oed. Cafodd ein cyfaill diniwed hwn ei dori i lawr yn dra disymwth. Er ei fod ar rai ystyriaethau yn dangos fod henaint a methiant yn dechreu gwneuthur eu hol, etto ni chafodd ond rhyw wythnos o glefyd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan R. J. J., ac yn y *cemetery* yn Mountain Ash, gan Humphreys, Cwmaman, Williams a Howells, Mountain Ash, pregethwyr y Bedyddwyr. Mae y weddw yn parhau yn dra chanolig yn herwydd damwain a gafodd, sef cael ei thaflu allan o'r *carriage* rhyw ddeufis yn ol. Dymunwn iddi nawdd a thangnefedd Duw trwy ystod gweddill y daith ddaearol.

Hydref y 4ydd, John, unig mab Mr. Titus Lloyd, Porthcawl, yn 37 oed. Bachgen tawel a diniwed iawn oedd John, ac mewn parch gyda phawb oeddynt yn ei adnabod. Dangoswyd hyny gan y rhifedi yn yr angladd—ni welwyd angladd mor lluosog yn yr ardal er ys blynyddoedd lawer; ac yr oedd yr offeiriad a gweinidogion bron pob enwad yn bresenol. Gwasanaethwyd yn y tŷ yn deimladwy ac effeithiol iawn gan y Parch. Mr. Cole, o Bridgend (B.), ac ar ei ol gan R. J. J. Rhoddwyd pennill wrth y drws gan E. W. L. Yn mynwent yr eglwys, gwasanaethwyd gan R. J. J., a darllenwyd ffurf-wasanaeth anrhydeddus Urdd yr Iforiaid gan un o'r aelodau. Caffed y teulu deimlo yn helaeth o'r nawdd a'r dyddanwch sydd oddiwrth Dduw yn eu galar trwm, fel y gallont alaru nid fel rhai heb obaith.

Hydref y 15fed, y Parch. Henry Fogg, Ormskirk, yn 84 oed, ar ol bod 62 mlynedd yn weinidog yn y lle, a phregethu yn rheolaidd hyd o fewn pedwar Sul yn ol. Yr oedd ei dad yn weinidog yn yr un lle o 1805 i 1824.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—J.J. Ty'r Dref; T.H., Llwyn; D.T., Treorci; D.E., Troedyrhiw; W.J., Pitcot Cottage; D.R., Wattstown; T.J., Alltyplaca; W.D., Cribin; D.D., Lampeter; J.D., Capelygroes.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

YR YMOFYNYDD.

Yr ydym yn tynu etto at ddiwedd blwyddyn, ac er yn ddiolchgar iawn am help y gorphenol, yr ydym yn taer wasgu ar bawb a deimlant dros lwyddiant ein cylchiolyn yr angenrheidrwydd o geisio gwneuthur i fyny am golledion y flwyddyn, a rhoi cychwyniad da i ni gyda dechreu'r flwyddyn newydd, os yw YR YMOFYNYDD i gael myned yn mlaen.

PREGETHAU Y PARCH. W. THOMAS, M.A.

Dymunwn alw sylw at y gyfres a ddechreuodd gyda rhifyn Awst, a byddwn yn falch i gael anfon copïau ychwanegol at ein dosparthwyr.

CYHOEDDIR TUA DIWEDD Y FLWYDDYN

"BANNAU FFYDD UNDODWR,"

Wedi ei gyfleithu gan y

PARCH. T. THOMAS, PANTDEFAID.

Darllener y sylw a wneir o'r llyfr yn y rhifyn presenol. Yr ydys yn gobeithio na fydd y pris ddim dros 6c. Anfoner *orders* oddiwrth Ysgolion Sul ac ereill yn ddioedi at y PARCH. W. JAMES, *Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD.

Mae llawer o ddarllenwyr presenol YR YMOFYNYDD wrth bob tebyg nad ydynt erioed wedi clywed son am y Gymdeithas uchod. Cymdeithas ydyw at gynnorthwyo dynion ieuainc i gael addysg rhagbarotoawl ar gyfer y weinidogaeth. Drwg genym ddywedyd fod y *Funds* yn bresenol yn isel iawn, ac felly yr ydym yn apelio at garedigrwydd yr hen danysgrifwyr yn ogystal â rhai newydd, (mae eisieu rhai newydd) fel y gallom helpu ymgeiswyr. Mae y Gymdeithas wedi bod o wasanaeth da yn y gorphenol. gall cyfeillion helpu iddi fod o wasanaeth etto yn y dyfodol. A gawn ni gan y cyfeillion ddwyn y mater gerbron y cynnulleidfaoedd? Ysgrifenydd y Gymdeithas yw y

GOL.

LLYFR CYNTAF I BLANT YR YSGOL SUL

(AIL ARGRAFFIAD),

Gan y diweddar Barch. JOHN JONES, ABERDAR.

PRIS—DWY GEINIOG.

Gwerthir 100 o'r uchod yn ol 12 swllt y cant; a dwsin am 1s. 6c.